Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 No. 531

Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012

RHAN 2

GWEITHDREFNAU TRIBIWNLYS EIDDO PRESWYL

Personau sydd â hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawiad a gynhelir yn breifat

32.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3) mae gan y personau canlynol hawl i fod yn bresennol mewn gwrandawiad a gynhelir yn breifat ac i fod yn bresennol yn ystod trafodaethau'r tribiwnlys ynglŷn â phenderfynu'r cais—

(a) llywydd neu gadeirydd neu aelod arall o'r panel, nad yw'n rhan o'r tribiwnlys at ddiben y gwrandawiad;

(b) aelod o'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd sy'n gweithredu yn rhinwedd y swydd honno;

(c) staff y tribiwnlys;

(ch) unrhyw berson arall a ganiateir gan y tribiwnlys, gyda chydsyniad y partïon.

(2) Ni chaiff yr un o'r personau a bennir ym mharagraff (1) gymryd unrhyw ran yn y gwrandawiad nac yn y cyfryw drafodaethau.

(3) Caiff y tribiwnlys ganiatáu i bersonau fod yn bresennol mewn gwrandawiad a gynhelir yn breifat ar ba bynnag delerau ac amodau a ystyrir yn briodol gan y tribiwnlys.